LLANDEILO FAWR TOWN COUNCIL.

Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Neuadd y Sir,
Heol Caerfyrddin,
Llandeilo,
SA19 6LA.

Rhagair

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Cyngor Tref Llandeilo wedi ymdrechu i gyflawni rhaglen o waith cynnal a chadw ar yr Hawliau Tramwy sydd o fewn ardal y dref, trwy dorri, tocio a dweud wrth CSC am unrhyw ddifrod i gatiau mochyn, sticlau, pontydd troed a llwybrau troed.
Gellir defnyddio'r holl lwybrau sydd ar y Map Swyddogol heblaw am LL/T 69/3. Gellir gweld y Map Swyddogol yn Swyddfeydd y Cyngor Sir yn Heol Cilgant Llandeilo.
Nid yw'n bosib i **gadeiriau olwyn** fynd ar hyd y llwybrau oherwydd y tir mwdlyd, serth a'r gatiau mochyn a sticlau sydd ar eu hyd.
Fodd bynnag mae yna un llwybr troed LL/T 43/2 sy'n gallu caniatáu mynediad cyfyngedig i gadeiriau olwyn mewn tywydd sych.

(Disgrifiad Byr / Lleoliad)

LLWYBR TROED RHIF 69/1 GLAN-DYFFRYN (GLYN CEIRCH) I FYTHYNNOD Y 'WALK'

Mae'r llwybr troed hwn yn mynd o ben gogleddol Heol Rhosmaen Glan-Dyffryn heibio i fferm o'r enw Glyn Ceirch, i 'Crug Manor' ac allan i'r A40 wrth fythynnod y 'Walk'. Nid yw'n rhwydd iawn i gerdded ar hyd y llwybr troed hwn mewn tywydd gwlyb. Yn y dyfodol agos mae C.S.C. am wella'r broblem hon, maent wedi gosod gatiau mochyn newydd yn lle'r sticlau er mwyn gwneud mynediad yn haws.

LLWYBR TROED 69/2 'CRUG HOUSE' I LL/T 44/13 (Croesi Ffordd Osgoi y Gogledd)
Wrth i chi adael 'Crug Manor' mae'r arwydd bost ar y dde yn nodi troad i'r dde fydd yn mynd â chi ar draws ffordd osgoi'r gogledd i lawr y llethr ac ar draws pont droed sy'n ddiogel ond heb ei hadeiladu'n dda iawn, er mwyn ymuno â LL/T 44/103, ac allan i 'Gurry Manor'.

LLWYBR TROED 69/3 TERAS TOMOS I DDIWEDD HEOL YR ORSAF

Doedd hi ddim yn bosib defnyddio'r llwybr troed hwn (**mae garej 'Station Motors' bellach ar y llwybr troed hwn)**

LLWYBR TROED 69/4 MAES MWYN I TERAS TOMOS
Ffordd fyrrach i fynd o un lle i'r llall yw'r llwybr troed hwn, ond does yna ddim golygfeydd.

LLWYBR TROED 69/5 HEOL CILGANT I BONT Y BRENIN
Does yna ddim golygfeydd gwych o ddyffryn Tywi i'w gweld o'r llwybr troed hwn ac ar un adeg dyma un o'r prif ffyrdd i mewn i Landeilo o'r enw Ysgubor Abad, yn y pen pellaf rydych yn croesi'r afon Tywi ar hyd Pont y Brenin a adeiladwyd yn 1911 ond fe'i hadwaenir yn lleol fel y 'Swing Bridge', a hynny am resymau amlwg.

LLWYBR TROED 69/6 SGWÂR BRADFORD GIÂT MOCHYN YR EGLWYS I HEOL YR EGLWYS
Mae'r llwybr troed yn croesi Iard Eglwys Sant Teilo o'r A483 ac allan i Heol yr Eglwys. Mae yna amrywiaeth o goed sy'n werth eu gweld, ac wrth gwrs ffynnon yr eglwys.

LLWYBR TROED 69/7 LODGE DWYREINIOL DINEFWR 43/2 HEN GABAN HEOL CAERFYRDDIN I GIÂT MOCHYN FFERM DINEFWR LL/T43/2

Mae'r llwybr troed hwn yn dechrau ychydig heibio i brif fynedfa Tŷ'r Drenewydd Heol Caerfyrddin ac mae'n croesi tir amaethyddol agored i Fferm Dinefwr, mae yna olygfeydd bendigedig o Gastell Dinefwr, Tŷ'r Drenewydd a thir parc gwych. Ar hyd y ffordd gwelir y safle Rhufeinig Hanesyddol a welwyd ar y teledu yn ddiweddar.

LLWYBR TROED 69/9 HYDD GWYN
Lluniwyd y llwybr troed hwn er mwyn croesi Ffordd Osgoi'r Gogledd o ardal yr Hydd Gwyn.

LLWYBR TROED 69/8 NANT-Y-RHIBO
Lluniwyd y llwybr troed hwn er mwyn creu cyswllt â Ll/T 69/9 Hydd Gwyn.

LLWYBR TROED 43/4 LLWYNHELIG I FYTHYNNOD COCH
Mae'r llwybr troed yn cysylltu ffordd Penybanc gyda ffordd osgoi'r Gogledd ac unwaith eto mae'n daith gerdded bleserus, mae'n croesi ystâd Llwynhelig a cheir coed derw aeddfed yn tyfu ar ei hyd. Heb amheuaeth nifer o flynyddoedd yn ôl roedd yna ddefnydd cyson yn cael ei wneud o'r llwybr hwn gan bobl oedd yn gweithio ar ystâd Dinefwr, oedd yn byw yn ardal Penybanc.

LLWYBR TROED 43/3 NANT-Y-RHIBO
Ceir arwydd bost i'r llwybr troed hwn ar ffordd Penybanc sydd ychydig oddi ar y ffordd osgoi ogleddol, ac mae'n bodoli rhwng dau fwthyn yn Nant-y-rhibo ac yn daith gerdded eithaf anodd. Unwaith eto pobl oedd yn gweithio ar ystâd Dinefwr oedd yn ei ddefnyddio fwyaf a hynny cyn i'r ffordd osgoi Gogleddol gael ei hadeiladu.

LLWYBR TROED 43/1 BYTHYNNOD COCH HEIBIO PEN PARC I GWRDD Â LL/T42/7

Yn wir mae'r llwybr troed hwn yn mynd â chi yn ôl mewn amser, mae'n eich tywys o'r Bythynnod Coch, heibio adeiladau allanol fferm Dinefwr i fyny'r lôn ac efallai os ydych yn ffodus gallwch weld y gwartheg gwyn hynafol, i lodge Pen-parc, a heibio i'r fynedfa i Dŷ'r Drenewydd o'r hen ffordd o 'Kings Lodge'. I lawr heibio i'r wal o gerrig sych sy'n amgáu'r parc ceirw gallwch weld y ceirw coch a llwyd. Yna mae'r llwybr troed ym mynd yn ei flaen i Fferm Penybanc.

SWYDDOG TECHNEGOL

D. I. DAVIES.